

**Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cyngorau
Tref a Chymuned**

Nos Fercher, 22 Ionawr 2020
7.00 yh

Siambur y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Rhaglen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

2. Cofnodion - Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 – ynghlwm.

**3. Cynigion cychwynnol ar gyfer
Cyllideb 2020/21**

Noder: Estynnwyd gwahoddiad i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill i fod yn bresennol ar gyfer yr eitem yma.

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith – mae'r adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr 2020 ar gael drwy'r ddolen isod:

Cyllideb Refeniw Ddrafft 2020/21 Draft Revenue Budget:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15198/Cyllideb%20Refeniw%20Ddrafft%20202021.pdf?LLL=1>

<http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s15198/Draft%20Revenue%20Budget%20202021.pdf?LLL=0>

Cyllideb Gyfalaf Ddrafft 2020/21 Draft Capital Budget:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15199/Cyllideb%20Cyfalaf%20202021.pdf?LLL=1>

<http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s15199/Capital%20Budget%20202021.pdf?LLL=0>

**Town and Community Councils
Liaison Forum Meeting**

Wednesday, 22 January 2020
7.00 pm

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

Agenda

1. Welcome and Apologies

2. Minutes - Confirmation of the minutes of the meeting held on 18 July 2019 – attached.

**3. Initial Budget Proposals for
2020/21**

Note: An invitation has been extended to other partners and stakeholders to attend for this item.

To consider the Executive's initial budget proposals – the report presented to the Executive meeting on 13 January 2020 is available on the link below:

4. Pencampwyr Iaith Gymraeg

Cyflwyniad a diweddariad.

5. Gwasanaeth Gwarchod y Gymdogaeth OWL Cymru

Tynnu sylw'r Fforwm at y ffaith bod OWL Cymru wedi cylchredeg neges yn uniongyrchol at yr holl gynghorau tref a chymuned ar 18 Rhagfyr 2019. Mae OWL Cymru yn gofyn am gefnogaeth ariannol gan y cymunedau i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, gan nodi gwahanol opsiynau er mwyn cyflawni hyn.

6. Cyfarfod nesaf y Forwm

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar **nos Iau, 30 Ebrill 2020 am 7.00 yh.**

7. Unrhyw fater arall

4. Welsh Language Champions

Presentation and update.

5. OWL Cymru Neighbourhood Watch Service

To draw the attention of the Forum to the fact that OWL Cymru has circulated an email directly to all town and community councils on 18 December 2019. OWL Cymru are seeking financial support from communities for providing the service in the future, and have noted different options to achieve this.

6. Next meeting of the Forum

To note that the next meeting of the Forum will be held on **Thursday, 30 April 2020 at 7.00 pm.**

7. Any other business

Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 18 Gorffennaf 2019
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh.

Presennol:

Cyngorau Tref a Chymuned

Cyng John H Owens	Aberffraw
Menna Evans (Clerc)	Aberffraw
Cyng Gordon Warren	Amlwch
Cyng Rhian Jones	Biwmares
Cyng Alan Williams	Caergybi
Robert Henderson (Clerc)	Caergybi
Cyng I N Evans	Llaneilian
Cyng Dafydd Griffiths	Llaneilian
Cyng Delyth Owen	Llanfaelog
Cyng Einion Williams	Llanfihangel Ysgeifiog
Cyng Dafydd Humphreys	Llanfair ME
Cyng Hanna Huws	Llanfairpwll
Cyng Gareth Cemlyn Jones	Llanfairpwll
Cyng J E Lewis	Llangefni / Bodffordd
Cyng Margaret Thomas	Llangefni
Cyng Sandra Thomas	Llanidan
Sydna Roberts (Clerc)	Llannerch-y-medd
Cyng Angela Gliddon	Pentraeth
Cyng Jacqueline Jones	Porthaethwy
Cyng Eryl Lewis	Porthaethwy
Cyng Bill Rowlands	Trearddur
Cyng Edna M Jones	Trewalchmai
Margaret Price (Clerc)	Trewalchmai
Cyng Celfyn Furlong	Y Fali
Cyng Ken Taylor	Y Fali

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Llinos Medi	Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)
Cyng Ieuan Williams	Dirprwy Arweinydd y Cyngor / Llanfair ME
Cyng Eric Wyn Jones	Bro Rhosyr
Dr Gwynne Jones	Prif Weithredwr
Annwen Morgan	Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella
	Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau
Fôn Roberts	Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Huw Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Elliw Llyr	Rheolydd Gwasanaethau Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (ar gyfer eitem 3)
Caron Jones	Swyddog Strategaeth Tai (ar gyfer eitem 3)
Rhian Wyn Jones	Swyddog Polisi

Hefyd yn bresennol:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (ar gyfer eitem 4)

Julie May
Matthew Redmond
Huw Blacker

Comisiynydd Arweiniol
Dirprwy Brif Weithredwr
Swyddog Arolygu

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cynghorau Tref a Chymuned:

Cyng Stan Zalot, Biwmares
Cyng Brian Potter, Llanbadrig
Cyng Cerys Jones, Llanddyfnan
Cyng A W Jones, Mechell
Eifion H Jones (Clerc), Pentraeth
Cyng Keith Roberts, Trearddur

Cyngor Sir Ynys Môn:

Y Cynghorwyr Richard Dew; Trefor Lloyd Hughes; Meirion Jones;
Richard Owain Jones; Robin Williams.

2. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019 fel rhai cywir.

Materion yn codi:

2.1 Heriau Ariannol

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi o ymateb Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, i'r gwahoddiad pellach a roddwyd i Weinidogion ddod i gyfarfod y Fforwm.

Nodwyd nad oedd y Gweinidog yn gallu derbyn y gwahoddiad oherwydd ymrwymadau eraill, ond ei bod yn falch o weld y Cyngor Sir a'r cynghorau tref a chymuned yn gweithio gyda'i gilydd trwy'r Fforwm i drafod cyllidebau a darpariaeth gwasanaethau lleol.

Yn ychwanegol, cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gohirio'r adolygiad gwariant ar gyfer 2020/21 ac y bydd amserlen y Cyngor ar gyfer gosod ei gyllideb yn llithro o ganlyniad i hynny.

2.2 Toiledau Cyhoeddus – y Dreth Fusnes

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y datganiad a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru y bydd adeiladau toiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yng Nghymru'n cael eu heithrio rhag talu'r dreth fusnes o 1 Ebrill 2020.

Cytunwyd y byddai Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151 y Cyngor yn darparu nodyn esboniadol i'w gylchredeg i'r holl glercod – gweler atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

3. Polisi Gosod Tai Cyffredin (Cysylltiad Lleol)

Cafwyd cyflwyniad gan Eiliw Llyr a Caron Jones o'r Gwasanaeth Tai, ar ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i ganfod a ddylid cynnwys cysylltiad cymunedol o fewn Polisi Gosod Tai Cyffredin y Cyngor.

Mae polisi cyfredol y Cyngor yn weithredol ers Gorffennaf 2016, pryd y'i diwygiwyd o fod yn system a oedd yn seiliedig ar bwyntiau i fod yn system sy'n seiliedig ar fandiau. Mae'r drefn yn seiliedig ar y bandio canlynol:

Brys – Cysylltiad lleol ac angen brys am dŷ.

Band 1 – Angen tŷ a chysylltiad lleol.

Band 2 – Angen tŷ ar frys ond dim cysylltiad lleol.

Band 3 - Angen tŷ ond dim cysylltiad lleol.

Yn y polisi cyfredol, fe ddynodir 'cysylltiad lleol' fel cysylltiad ag Ynys Môn. Mae'r Ddeddf Tai 1996 a 2014 yn nodi pe byddai dymuniad i edrych ar gael lefel is o gysylltiad lleol, ee cysylltiad gyda chymuned neu dref benodol, byddai angen ail-gyflwyno'r Polisi Gosod Cyffredin.

Dengys data ar gyfer Ebrill – Tachwedd 2018 bod 167 o dai wedi eu gosod. O'r ymgeiswyr llwyddiannus yma, nid oedd gan 93 ohonynt gysylltiad gyda'r gymuned, ond roedd gan 89% ohonynt gysylltiad gydag Ynys Môn.

Eglurwyd bod 87 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u derbyn hyd yn hyn, gyda 85% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai pobl sydd â chysylltiad cymunedol gael mwy o flaenoriaeth. Fe wnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynol:

Pryder o ran prinder fflatiau gydag un ystafell wely (Y Fali). Ymatebodd yr Arweinydd bod hyn wedi cael ei adnabod eisoes ar lefel traws-sirol ac yn derbyn sylw.

Byddai rhoi blaenoriaeth i rai sydd â chysylltiadau cymunedol o fudd i rai sydd angen gwneud trefniadau gofal plant a phobl fregys (Llanfairpwll)

Mae rhoi blaenoriaeth i rai sydd â chysylltiad cymunedol yn angenrheidiol (Bodffordd)

Dylid blaenoriaethu hefyd ar sail gofynion ieithyddol y cymunedau (Aberffraw). Eglurwyd nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ystyriaethau ieithyddol wrth osod tai. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Arweinydd y gallai rhoi blaenoriaeth i rai sydd â chysylltiad â'r gymuned fod o gymorth i gefnogi hyn.

Cytunwyd i gefnogi cynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi Gosod Tai Cyffredin.

Anogwyd y cynghorau i ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad erbyn 5 Awst.

4. Arolwg Etholiadol - Ynys Môn – 2019

Ar 23 Mehefin 2016 gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gychwyn rhaglen newydd o adolygiadau etholiadol ar draws Cymru, gyda disgwyliad bod pob un o'r arolygon wedi'u cwblhau mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Cafwyd cyflwyniad gan Julie May (Comisiynydd Arweiniol), Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr) a Huw Blacker (Swyddog Arolygu) o'r Comisiwn, yn esbonio'r broses a'r amserlen ar gyfer Ynys Môn.

Rhoddir isod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad:

Cam 1 – Dechrau Swyddogol - Cyfnod ymgynghori cychwynnol o 12 wythnos yn cychwyn ar 19 Gorffennaf hyd at 10 Hydref 2019.

Cam 2 - Cynigion Drafft - Y Comisiwn yn datblygu'r Cynigion Drafft ac yn eu cyhoeddi. Cyfnod ymgynghori o 12 wythnos - Gwanwyn 2020.

Cam 3 – Cynigion Terfynol - Bydd y Comisiwn yn llunio'r Adroddiad Cynigion Terfynol ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru - Gaeaf 2020.

Cam 4 – Ystyriaeth Llywodraeth Cymru - Ar ôl 6 wythnos, gall Llywodraeth Cymru wneud Gorchymyn (cyfle i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru).

Cam 5 – Daw'r Wardiau i Rym - Daw'r wardiau newydd i rym ar gyfer etholiad llywodraeth leol Mai 2022.

Dosbarthwyd yn y cyfarfod lyfryn y Comisiwn '*Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer 2016*' a ddiweddarwyd ar gyfer y rhaglen newydd o adolygiadau etholiadol. Yn ogystal, dosbarthwyd map a thabl yn dangos yr amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol.

Ar ôl ystyried y meini prawf statudol, ynghyd â'r polisïau a chyfyngiadau perthnasol o ran maint cynghorau, y nod ar gyfer maint y Cyngor yn yr arolwg hwn yw 33 aelod, sef cymhareb o un cynghorydd fesul 1,549 o etholwyr.

Bydd y Comisiwn yn ystyried y materion isod wrth ddatblygu Cynigion Drafft:

- Amrywiant – mor agos â phosibl at 1,549 fesul cynghorydd yn ddelfrydol.
- Dadleuon ynghylch cysylltiadau cymunedol sy'n cyfiawnhau lefelau annodweddiadol o gydraddoldeb etholiadol
- Ffiniau naturiol (topograffeg, bryniau, afonydd ayyb)
- Ffiniau gwneuthuredig (priffyrdd, traffyrdd, rheilffyrdd, rhaniadau gwledig/trefol ayyb)

O ran ymateb i'r ymgynghoriad, nodwyd:

- y caiff cynrychiolaethau eu barnu yn ôl ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r cynnig
- bod cynrychiolaethau cefnogol yr un mor bwysig â'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cynigion
- y bydd cynrychiolaethau effeithiol yn
 - ystyried gofynion statudol a pholisiau'r Comisiwn
 - awgrymu cynnig amgen yn ogystal ag amlinellu gwrthwynebiad
 - ystyried canlyniadau'r cynnig amgen ar draws yr ardal ehangaf posibl

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr angen i ystyried maint wardiau gwledig a'r effaith ar hygyrchedd (Llanfairpwll), eglurwyd nad oedd pellter yn ystyriaeth yma gan mai nod yr arolwg oedd sicrhau cydraddoldeb etholiadol o ran nifer yr etholwyr ym mhob ward.

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi sefydlu Panel trawsbleidiol i ystyried gwahanol opsiynau. Aelodau'r Panel yw y Cynghorwyr Richard Dew, Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones, Llinos Medi, Bryan Owen, R G Parry OBE, Alun Roberts, J Arwel Roberts.

Annogwyd y cynghorau unigol i drafod gyda'u haelodau Cyngor Sir lleol, yn ogystal ag ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad sydd yn cau ar 10 Hydref 2019, ac ar gael ar y ddolen isod:

<https://cfdl.llyw.cymru/adolygiadau/07-19/arolwg-etholiadol-ynys-mon>

5. Unrhyw fater arall

5.1 Darparu Mannau Parcio Hygyrch – Biwmares

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cyng Gareth Cemlyn Jones (Llanfairpwll) ynghylch diffyg o ran mannau parcio hygyrch ar y Grin, Biwmares, eglurwyd mai Cyngor Tref Biwmares oedd perchennog y maes parcio. Dywedodd y Cyng Rhian Jones (Biwmares) bod Cyngor Tref eisoes yn ymwybodol ac yn rhoi sylw i'r mater.

5.2 Lleoliad cyfarfod nesaf y Fforwm

Yn unol ag awgrym yr Arweinydd, cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf yn Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch – dyddiad i'w gadarnhau maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 yh.

Toiledau Cyhoeddus a'r Dreth Fusnes – Nodyn Esboniadol

Mae'r Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned wedi cynnal sawl trafodaeth ynghylch trosglwyddo toiledau cyhoeddus i'r cymunedau yn y gorffennol, ac wedi trafod yn benodol y rheolau ar gyfer hawlio rhyddhad o'r dreth i fusnesau bychan. Yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ar 18 Gorffennaf, 2019, gofynnwyd i mi ddarparu nodyn esboniadol cryno sy'n gosod allan y sefyllfa ddiweddaraf – gweler yr eglurad isod:

Ar hyn o bryd, nid yw cyngorau tref a chymuned yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi busnesau Bach. Gan eu bod yn awdurdodau sy'n codi praeseptau, rhaid iddynt dalu ardrethi annomestig yn llawn.

Mewn cyfarfod o'r Fforwm ar 28 Tachwedd 2018, fe gyfeiriais at ddatganiad a wnaed gan y Canghellor ym mis Hydref 2018 y byddai toiledau cyhoeddus yn Lloegr yn derbyn 100% o ryddhad o'r dreth fusnes. Eglurais hefyd y byddai rhaid disgwyl i glywed os bydd hyn yn cael ei weithredu yng Nghymru, gan fod Llywodraeth Cymru'n rhydd i benderfynu sut y dylid dyrannu'r arian y mae'n ei dderbyn.

Ar 26 Mehefin 2019, fe gyhoeddodd Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AC, y bydd adeiladau toiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yng Nghymru'n cael eu heithrio rhag talu ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2020. Dywedodd y Gweinidog Cyllid yn natganiad Llywodraeth Cymru i'r wasg bod y cyhoeddiad yn *“rhan o Fil Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yn gynharach y mis hwn (Mehefin) ac mae'n ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i ddarparu mynediad at doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd o dan Ran 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.”*

I grynhoi, felly, o gychwyn blwyddyn ariannol nesaf (2020/21), bydd pawb sy'n darparu toiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yn derbyn 100% o ryddhad o'r drethi busnes.

Marc Jones
Pennaeth Adnoddau a Swyddog 151
Cyngor Sir Ynys Môn

Gorffennaf 2019